

Adolygiad Blynyddol

2025/26

CYNNWYS

01

Darparu cymwysterau, asesiadau a chefnogaeth flaenllaw

tudalennau 3 - 4
Y daith Gwneud-i-Gymru

tudalennau 5 - 6
Canllawiau newydd i'ch helpu chi i gyflawni'n hyderus

02

Llunio dyfodol addysg yng Nghymru

tudalennau 7 - 10
Y cymwysterau newydd sy'n rhoi'r mewnwelediad cyntaf i bobl ifanc i sectorau hanfodol Cymru

03

Dathlu cyflawniad dysgwyr


tudalen 11
Dathlu Mathemategwyr ifanc Cymru: Derbynwyr Bwrsari 2025

tudalen 12
25 mlynedd yn tanio talent ifanc Cymru yn y Gwobrau Arloesedd

04

Sefydliad llawn balchder

tudalennau 13 - 14
Buddsoddi yn ein pobl a'n harweinwyr





Ein Hadolygiad Blynyddol sy'n adlewyrchu'r hyn a gredwn am gymwysterau; dylen nhw fynd â dysgwyr i'r man lle maen nhw am fynd

Yr hyn sy'n llywio pob stori yn yr adolygiad hwn yw ein hymrwymiad i lunio a chyflwyno cymwysterau dwyieithog y gellir ymddiried ynddynt sy'n cefnogi dysgwyr i symud ymlaen, boed hynny at astudiaeth bellach, hyfforddiant, neu i'r byd gwaith. Nid gweithio ar ein pennau ein hunain yw'r ffordd orau o sicrhau cymwysterau gwych. Mae angen gwrando.
Dyna pam, ynghyd ag arddangos ein gwaith, bod yr adolygiad hwn hefyd yn cyfleu lleisiau'r gymuned addysg. O ddysgwyr, athrawon a darlithwyr i gonsortia rhanbarthol a grwpiau cynghori; y mewnwelediad a'r cydweithredu a gawn ganddyn nhw sy'n helpu i lunio cymwysterau sydd wir yn benodol i ddysgwyr Cymru.

Fel elusen gofrestredig, rydym yn ailfuddsoddi'n barhaus i wella ein hadnoddau addysgu, gan ehangu ein dewis o gymwysterau, a chynnig cefnogaeth wedi'i phersonoli i fodloni anghenion addysg Cymru sy'n newid.

Dewch i wybod mwy am ein gwaith elusennol:

www.cbac.co.uk/Elusen





Ian Morgan
Prif Weithredwr

Croeso i Adolygiad Blynyddol 2025/26

Wrth i ni edrych yn ôl ar y deuddeg mis sydd newydd fynd heibio, mae'n glir bod hon yn flwyddyn a ddiffiniwyd gan gydweithredu ac ymgysylltu â'r gymuned addysg ledled Cymru. Bu'r partneriaethau cryf a adeiladwyd gennym ag ysgolion, colegau a phrif sefydliadau addysg yn hanfodol i'n gwaith ni, gan lywio datblygiad cymwysterau sy'n bodloni anghenion a disgwyliadau'r ystafelloedd dosbarth sydd ohoni heddiw.

Mae'r partneriaethau hyn yn mynd y tu hwnt i ddatblygu cymwysterau. Dyma'r hyn sy'n sail i'r gefnogaeth a ddarparwn i addysgwyr, o adnoddau digidol rhad ac am ddim a chanllawiau i ddeunyddiau addysgu a dysgu ehangach, gan sicrhau eu bod yn berthnasol, yn ymarferol ac yn hygyrch. Yn ganolog i'n llwyddiant o hyd y mae'r perthnasoedd a sefydlwyd gennym, yr ydym yn parhau i'w cryfhau, a'r dyhead sydd gennym ar y cyd i sicrhau bod cymwysterau a chefnogaeth o safon ar gael i ysgolion a cholegau ar draws Cymru.

Dangoswyd yr ymrwymiad hwn yn y ffordd y datblygwyd ac y cyflawnwyd ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru, gan sicrhau bod ein haddysgwyr yn hyderus o ran paratoi a chyflwyno'r pwnc o'u dewis.

Yn achos ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru Ton 2, golygai hyn sicrhau bod popeth ar gael i athrawon a darlithwyr oedd ei angen arnynt wrth ddechrau addysgu ym mis Medi 2026. Mae cyfres lawn o ddeunyddiau cefnogi ar gael erbyn hyn. Yn eu plith y mae adnoddau digidol addasadwy, a derbyniodd addysgwyr ar draws Cymru yr hyfforddiant a'r hyder i gyflwyno'r cymwysterau hyn drwy ein digwyddiadau Dysgu Proffesiynol 'Paratoi i Addysgu'.

Defnyddiwyd yr un dull gweithredu wrth ddatblygu ein cymwysterau Ton 3. Drwy ymweliadau ag ysgolion a cholegau, gweminarau gydag uwch arweinwyr a grwpiau datblygu cymwysterau, rydyn ni wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod athrawon a darlithwyr yn rhan o'r broses ac yn ymwybodol o bob rhan ohoni, Mae pob manyleb wedi'i chymeradwyo ar gael erbyn hyn, gan gynnig cyfle i addysgwyr gynllunio a pharatoi cyn dechrau addysgu am y tro cyntaf o'r flwyddyn nesaf.

Deallwn hefyd y pryderon a fynegwyd ynghylch cyflwyno ein cymwysterau Ton 1. Gwrandawodd ein timau ar y pryderon hynny ac rydym wedi gweithio'n agos gyda'n hysgolion a cholegau i roi newid go iawn ar waith a fydd yn cefnogi ein haddysgwyr. Dyma beth yw gwir bartneriaeth: gwrando ar bryderon a chydweithio i ddod o hyd i atebion ymarferol.

Yn ein Hadolygiad Blynyddol, trafodwn hyd a lled yr hyn a gyflawnwyd, gan ddathlu ein llwyddiannau a chynnig y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau allweddol a fydd yn cefnogi ein hysgolion a cholegau. Hoffwn ddiolch i'n hysgolion, colegau, a'm cydweithwyr am y ffordd mae pawb wedi cyfrannu at barhad llwyddiant CBAC.

Ein blwyddyn y rhifau



Mynychodd
400+
o uwch arweinwyr o ysgolion a cholegau **ein gweminarau**

Derbyniodd ein cyrsiau Dysgu Proffesiynol '**boddhaol iawn**' neu '**boddhaol ar y cyfan**' gan
86%
o athrawon a darlithwyr

Mynychwyd
20+
o gynadleddau.

Drwy gymryd rhan weithredol mewn mwy nag ugain o gynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol, mae ein Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn llywio gwaith presennol ac at y dyfodol, gan aros ar y blaen i'r tueddiadau diweddaraf

AEA-Europe
Cynhadledd Asesu Ryngwladol;
Yr Hag - Yr Iseldiroedd

BETT
Asesu ar-lein a digidol
Llundain - DU

Cynhadledd Prifathrawon Uwchradd
Caerdydd a Chasnewydd
Cymru - DU

Fforwm Polisi ar gyfer Cymru
Sector Polisi a Diwygio
Caerdydd - DU

Ymwelodd ein Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn bersonol â
34 **o ysgolion a cholegau**

1,400
o oriau o gynnwys dysgu newydd
ar draws **280 o adnoddau newydd**

90%
o ysgolion a cholegau
wedi ymgysylltu â'n Tîm Cefnogi Rhanbarthol

13,997
o athrawon a darlithwyr
wedi mynychu digwyddiadau Dysgu Proffesiynol ar draws Cymru

Y daith
Gwneud-i-Gymru

Luniwyd ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru yn benodol i gefnogi Cynnig Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 Cymwysterau Cymru ac maen nhw'n cyfateb i'r Cwricwlwm i Gymru a'i Bedwar Diben. Gyda'r rhain, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau o'r byd real, drwy gyfrwng cynnwys cydlynol, hygyrch sydd â'i wreiddiau mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol, a rhyngwladol, a fydd yn rhoi'r arfau i athrawon ddod â dysgu'n fyw.



Taith mewn tair Ton

Ton 1 Addysgu cyntaf: Medi 2025

Fel yr unig gorff dyfarnu yng Nghymru sy'n cyflwyno'r cymwysterau TGAU newydd a'r cymwysterau cysylltiedig, datblygwyd pedwar ar ddeg o gymwysterau newydd gennym. Yn eu plith mae Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg, Mathemateg ac Astudiaethau Crefyddol.

Ton 2 Addysgu cyntaf: Medi 2026

Gan adeiladu ar fomentwm Ton 1, ehangwyd ar y gyfres gyda'r ail Don o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig (yn eu plith Hanes, Gwyddoniaeth integredig a'r Gwyddorau).

Darparwyd pecyn cefnogi cyflawn ar gyfer y ddwy Don, oedd yn cynnwys rhaglen Dysgu Proffesiynol Cymru gyfan a chyfres newydd o Adnoddau Dysgu Cyfunol addasadwy a fyddai'n arfogi athrawon a dysgwyr i fynd ati'n hyderus i gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn.

Ton 3 Addysgu cyntaf: Medi 2027

Gan fod angen sicrhau llwybr perthnasol a boddhaus i bob dysgwr drwy addysg, ymrwymwyd i ddatblygu trydedd Ton, yr olaf, a fyddai'n cwmpasu'r Dystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd yng Nghymru (TAAU), Cymwysterau Sylfaen, Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith, y Project Personol, a'r Gyfres Sgiliau. Mae'r rhain yn gymwysterau a fwriadwyd i gynnig mwy o ddewis ac i sicrhau bod llwybr pob dysgwr drwy'r byd addysg yn un ystyrlon a pherthnasol.

Adeiladu cynnig cynhwysol

Ein nod o ran Ton 3 y cymwysterau Gwneud-i-Gymru yw cynnig mwy o ddewis a hefyd llwybrau dilys i bob dysgwr yng Nghymru. Gan gydweithio'n agos mewn partneriaeth â diwydiant ac arbenigwyr addysg, mae'r cymwysterau hyn yn cynnig llwybrau dysgu eraill sy'n ategu ein TGAU ac yn agor y drysau i ddyfodol o ddewis eang.

TAAU: Cynnig llwybrau arloesol i ddysgwyr i ystyried meysydd newydd o ddiddordeb, sy'n rhoi mwy o ddewis ac yn eu hannog i ystyried dewis eang o rolau yn y diwydiannau sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Cymwysterau Sylfaen: Wedi'u llunio i rymuso pob dysgwr i lwyddo, i feithrin sgiliau hanfodol, a gosod sylfaen gref ar gyfer dysgu, bywyd, a gwaith yn y dyfodol.

Y Project Personol: Mae'n disodli'r Project Unigol yn naturiol yn y Dystysgrif Her Sgiliau bresennol, gan rymuso dysgwyr i astudio mewn ffordd ystyrlon y maen nhw eu hunain yn ei chyfeirio.

Y Gyfres Sgiliau: Yn rhychwantu Lefel Mynediad i Lefel 2, gan gydnabod cyflawniad ar bob cam drwy gyfrwng strwythur unedol hyblyg, wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn cyd-destunau o'r byd real.

Pam mae canolfannau yn dewis CBAC?

Wrth galon y Cynnig Cenedlaethol 14-16 y mae'r ymrwymiad i sicrhau bod gan bob dysgwr lwybr sy'n gweithio iddyn nhw. Fel yr unig gorff dyfarnu sy'n cyflwyno cymwysterau TGAU, Galwedigaethol, a Seiliedig ar Sgiliau wedi'u Gwneud-i-Gymru, mae CBAC mewn safle unigryw i gefnogi'r uchelgais hwnnw. Rydyn ni'n bartner naturiol i'r canolfannau hynny sy'n chwilio am ddarparwr cyflawn, cyson gyda'r profiad sydd gennym dros 75 mlynedd yn datblygu cymwysterau dwyieithog y gellir ymddiried ynddynt a'r perthnasoedd a ddatblygwyd gennym gydag ysgolion a cholegau ar draws Cymru.

Cwrdd â'n cymuned addysgu yn eu cynefin eu hunain

Yr hyn a fu'n ganolog eleni wrth i ni ymgysylltu oedd arddangos y cymwysterau sydd ar gael gennym ac adeiladu perthnasoedd ag ysgolion a cholegau. Mae **Sophie Dobbs, ein Cynrychiolydd Rhanbarthol Ton 3**, wedi ymweld â mwy na 140 o ysgolion a cholegau ledled Cymru.

Ymgysylltodd ag athrawon a darlithwyr wyneb yn wyneb ac ar-lein i rannu'r hyn sydd ar gael ac ateb cwestiynau.

> "Rydym wrth ein bodd bod ein holl gymwysterau Ton 3 wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru erbyn hyn. Deallwn fod canolfannau'n awyddus i symud draw, a'n rôl ni yw sicrhau bod hynny'n digwydd mor llyfn â phosibl. Cafwyd ymateb calonogol iawn gan ysgolion a cholegau, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r sgyrsiau hynny wrth i ni symud tuag at yr addysgu cyntaf yn 2027."



Sophie Dobbs,
Cynrychiolydd Rhanbarthol, Ton 3

Ochr yn ochr â'r estyn allan hwn, rydym wedi bod yn llunio pecyn cyflawn o ddeunyddiau cefnogi.

Lansiwyd ein Canllawiau Cyflym Ton 3 ym mis Mawrth; mae'r rhain yn cynnig trosolwg hygyrch o bob cymhwyster gan ymdrin â phwrpas, strwythur, proffil y dysgwyr targed, a dull asesu.

Cyhoeddwyd ein manylebau a Deunyddiau Asesu Enghreifftiol terfynol ym mis Medi sydd felly'n caniatáu i athrawon a darlithwyr fynd ati'n hyderus i baratoi ar gyfer yr addysgu cyntaf ym mis Medi 2027.

Fel y Tonnau blaenorol, bydd ein Canllawiau Addysgu (Ionawr 2027), rhaglen Dysgu Proffesiynol a chyfres o Adnoddau Dysgu Cyfunol yn ategu hyn, a'r cyfan ar gael cyn yr addysgu cyntaf.

Edrych i'r dyfodol

Bwriad y daith Gwneud-i-Gymru hon erioed fu datblygu cymwysterau a fyddai'n cefnogi dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru, yn rhoi'r un tegwch i bob dysgwr, ac yn rhoi'r offer a'r hyder i addysgwyr Cymru i wneud i'r cyfan weithio yn eu hystafelloedd dosbarth.

Wrth i'r gyfres newydd o gymwysterau barhau i dyfu, rydym yn ymrwymo'n llwyr o hyd i'r weledigaeth honno ac yn ddiolchgar iawn i bob dysgwr, athro, darlithydd, coleg a phartner addysg sydd drwy eu mewnwelediad wedi helpu i lunio'r cymwysterau hyn ar draws pob un o'r tair Ton.

Dewch i wybod mwy:
cbac.co.uk/Ton3



Canllawiau newydd i'ch helpu chi i **gyflawni'n hyderus**

Gofynnwch i unrhyw athro sy'n cyflwyno ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'w arferion o ddydd i ddydd, ac fel arfer yr un ateb a gewch chi: canllawiau clir, ymarferol sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi dwy ddogfen newydd o ganllawiau sy'n gwneud hynny'n union, wedi'u llywio'n uniongyrchol gan yr hyn y dywedodd athrawon a darlithwyr ar draws Cymru yr oedd ei angen arnyn nhw.

Cefnogi asesiadau di-arholiad, gan gynnwys defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Mae asesiadau di-arholiad yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth drwy gyfrwng portffolios, gwaith ymarferol a phrojectau seiliedig ar ymchwil.

Gyda chwestiynau newydd yn codi i ysgolion a cholegau oherwydd y defnydd cynyddol o AI cynhyrchiol, cynhyrchodd ein tîm Datblygu Cymwysterau ganllawiau[1] newydd yn ymdrin â'r hyn y gall ac na all dysgwyr ei wneud ar bob cam o'r broses asesu, ynghyd â'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos dilysrwydd.

Mae'r canllawiau hyn yn rhannu'r broses Asesu Di-arholiad yn ddwy.

1. Y Cam Ymchwil: Yn ymdrin â'r gweithgareddau, y ffynonellau a'r adnoddau y gall dysgwyr eu defnyddio, yn yr ystafell ddosbarth ac yn annibynnol.
2. Cam yr Asesiad Di-arholiad: Yn ymdrin â'r lefelau gwahanol o reoli asesiadau, disgwyliadau annibyniaeth dysgwyr a sut i ddangos tystiolaeth o ddilysrwydd.

Hefyd, mae'n cynnwys enghreifftiau ymarferol o sut i gyfeirnodi amrywiaeth eang o ffynonellau, o lyfrau i gyfnodolion i offer AI cynhyrchiol, gan helpu dysgwyr i ddatblygu arferion academaidd da a helpu ysgolion a cholegau i osgoi materion camymddwyn posibl.

Dewch i wybod mwy:
cbac.co.uk/CanllawiauADA

Llywio testunau sensitif yn hyderus

Gall addysgu yn aml ysgogi trafodaethau cymhleth a sensitif ar adegau, boed hynny'n perthyn i'r fanyleb neu'n digwydd yn naturiol yn yr ystafell ddosbarth. Rydyn ni felly wedi cyhoeddi canllawiau ar addysgu testunau sensitif yn yr ystafell ddosbarth i helpu athrawon a darlithwyr i ymdrin yn dda ag achlysuron fel hyn. Y bwriad yw cefnogi amgylcheddau dysgu sy'n ddiogel, cynhwysol a pharchus.

Yn wahanol i'r canllawiau Asesu di-arholiad, mae'r adnodd hwn yn amlinellu ystyriaethau allweddol i ymarferwyr wrth gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn perthynas â thestunau sensitif mewn amgylchedd diogel, cynhwysol a chefnogol. Mae ein timau hefyd yn annog pob athro a darlithydd i ddefnyddio'r canllawiau ar y cyd â Chanllawiau Addysgu penodol i gymwysterau, yn ogystal â deddfwriaeth berthnasol, canllawiau cenedlaethol a pholisïau ysgolion a cholegau.

Dewch i wybod mwy:
cbac.co.uk/CanllawiauSensitifrwydd

Mae'r ddau ganllaw hyn yn enghraifft dda o sut rydyn ni'n gweithio law yn llaw â'r gymuned addysgu, gan ystyried ei hadborth a thrawsnewid hynny wedyn yn adnoddau ac arweiniad sydd wir yn gwneud gwahaniaeth. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod popeth sydd ei angen arnyn nhw ar gael i athrawon a darlithwyr fel eu bod yn gallu cyflwyno profiadau dysgu ystyrlon yn hyderus.

[1] Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn ymwneud yn uniongyrchol â'n cymwysterau Ton 2 a Thon 3. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol i Don 2 hefyd, er nad yw'r derminoleg ar gyfer Ton 1 yn cyfateb i'r canllawiau hyn eto. Mae'r ddau ganllaw hyn yn enghraifft dda o sut rydyn ni'n gweithio law yn llaw â'r gymuned addysgu, gan ystyried ei hadborth a thrawsnewid hynny wedyn yn adnoddau ac arweiniad sydd wir yn gwneud gwahaniaeth. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod popeth sydd ei angen arnyn nhw ar gael i athrawon a darlithwyr fel eu bod yn gallu cyflwyno profiadau dysgu ystyrlon yn hyderus.



> Wedi'u datblygu mewn ymateb i adborth gan ymarferwyr a thrwy gydweithio â rhanddeiliaid ledled Cymru, mae'r canllawiau hyn yn darparu cefnogaeth ymarferol a hygyrch i athrawon a dysgwyr. Hefyd, mae'n cefnogi ymarferwyr drwy greu amgylcheddau dysgu diogel, cynhwysol a pharchus.

Delyth Jones
Cyfarwyddwr Cynorthwyol,
Datblygu Cymwysterau





Erthygl gan Richard Harry
Richard Harry
Cyfarwyddwr Gweithredol: Cymwysterau ac Asesu

Y cymwysterau newydd sy'n rhoi'r mewnwelediad cyntaf i bobl ifanc i sectorau hanfodol Cymru

Mae Cymru yn adeiladu ar system addysg sy'n gwerthfawrogi pob dysgwr a phob llwybr. Yn ganolog i hyn mae llunio cymwysterau galwedigaethol sy'n drylwyr, yn berthnasol, ac sydd wir yn agor drysau i bobl ifanc.

Fel yr unig gorff dyfarnu sy'n darparu TGAU Gwneud-i-Gymru, cymwysterau Galwedigaethol, a chymwysterau seiliedig ar Sgiliau yn rhan o'r Cynnig Cymwysterau 14-16 Cenedlaethol, mae CBAC yn chwarae rhan unigryw yn y broses o droi'r weledigaeth honno'n realiti. Yma, mae Richard Harry, Cyfarwyddwr Gweithredol: Cymwysterau ac Asesu, yn adfyfyrio ar yr hyn mae'n ei gymryd i lunio cymwysterau sydd wir yn gweithio i ddysgwyr, i gyflogwyr, ac i Gymru.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae sefyllfa addysg yng Nghymru wedi trawsnewid yn llwyr.

Yn ganolog i'r newid hwn mae datblygiad cyfres newydd o gymwysterau: llwybrau galwedigaethol sydd wedi'u llunio'n ofalus i adlewyrchu uchelgeisiau ein cwricwlwm cenedlaethol ac i roi mewnwelediad ystyrlon i bobl ifanc i sectorau allweddol Cymru.

Mae'r cymwysterau hyn yn ffurfio rhan o broses ddiwygio Cymwysterau Cymru, ac maen nhw wedi'u llunio i ehangu profiadau dysgwyr, cryfhau eu dealltwriaeth o gyd-destunau byd go iawn, a'u helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol yn economi Cymru sy'n datblygu.

Mae Cymwysterau Cymru wedi cymeradwyo amrywiaeth o gymwysterau Lefel 1/2 Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) a chymwysterau Sylfaen newydd wedi'u datblygu gan CBAC. Ni felly yw'r corff dyfarnu cyntaf i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer Ton 3 y broses diwygio cymwysterau 14-16 Cenedlaethol ac yn atgyfnerthu ein rôl o ran darparu cymwysterau Gwneud-i-Gymru o ansawdd uchel sy'n cyfateb i'r Cwricwlwm i Gymru.

Bydd y cymwysterau hyn yn cynnig mwy o ddewis ac amrywiaeth ehangach o sgiliau a gwybodaeth alwedigaethol, gan ategu cymwysterau TGAU traddodiadol.

Mae'r cynnig wedi'i gymeradwyo yn cynnwys TAAU Lefel 1 a 2 ar draws sectorau fel yr Amgylchedd Adeiledig, Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, Technoleg, Lletygarwch ac Arlwyo, a Theithio a Thwristiaeth, ynghyd â chymwysterau Lefel Mynediad a Lefel 1 Sylfaen mewn meysydd gan gynnwys Cymraeg a Dylunio a Thechnoleg. Byddan nhw'n cael eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2027.

Llunio cymwysterau cadarn i gefnogi dilyniant dysgwyr

Wrth i ni baratoi'r cymwysterau hyn i'w defnyddio'n ehangach, mae'n bwysig deall pam maen nhw'n bwysig, a'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw werthfawr i Gymru gyfan, yn ogystal â dysgwyr heddiw.

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u llunio'n benodol i Gymru sy'n golygu eu bod nhw'n cyfateb yn agos i'r Cwricwlwm i Gymru a'r sectorau y gall dysgwyr ddewis eu dilyn yn y pen draw.

Maen nhw'n cynnig mewnwelediad ystyrlon i bobl ifanc i amgylcheddau gweithio byd go iawn, gan gefnogi dealltwriaeth gliriach o sut mae diwydiannau'n gweithredu a'r cyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen.

Fel CBAC, ein rôl yw cymryd uchelgeisiau'r rhaglen ddiwygio a'u troi'n gymwysterau ymarferol o ansawdd uchel sy'n gweithio i ysgolion, colegau, a dysgwyr ledled Cymru.

Rhoi polisi ar waith drwy bartneriaethau â diwydiant


Er mai Cymwysterau Cymru sy'n pennu'r cyfeiriad, ni sy'n dylunio'r cymwysterau eu hunain: y cynnwys, y modelau asesu, y deunyddiau dwyieithog, a'r gefnogaeth sy'n galluogi addysgu effeithiol.

Yn ogystal â hyrwyddo'r cymwysterau hyn, rydym yn canolbwyntio ar eu llunio drwy ddatblygu dan arweiniad tystiolaeth, partneriaethau cryf â diwydiant, a'n profiad o'r hyn sy'n cynnig gwerth go iawn yn yr ystafell ddosbarth. Mae adroddiad y Pwyllgor yn gosod her glir ar gyfer y llwybrau galwedigaethol newydd: mae'n rhaid iddyn nhw sefyll allan yn hyderus yn ymyl llwybrau academaidd traddodiadol, cynnig dilyniant cydlynol, a rhoi'r wybodaeth a'r profiadau i ddysgwyr sy'n cefnogi astudiaeth bellach a gwaith.

Nid ymarfer y tu ôl i ddrysau caeedig yw'r broses o lunio cymhwyster; rydym wedi ymgysylltu â chyflogwyr, cyrff diwydiant a sefydliadau arbenigol, gan gynnwys Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, partneriaid lletygarwch, ac arweinwyr yn y sector cyhoeddus.

Ar y llwybr lletygarwch ac arlwyo, er enghraifft, gall dysgwyr ennill Tystysgrif Diogelwch Bwyd, Hylendid ac Alergenau fewnblanedig sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n dangos eu bod yn deall safonau diwydiant cydnabyddedig ac yn gallu eu cymhwyso.

Mae partneriaethau'n agor drysau hefyd. Drwy gydweithio â phartneriaid diwydiant ledled Cymru, rydym yn helpu pobl ifanc i ddeall yr amrywiaeth eang o gyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw ym mhob sector.





Beth mae'r cymwysterau hyn yn ei gynnig i ddysgwyr, i ysgolion, ac i Gymru?

Mae cymwysterau galwedigaethol wedi hen ddioddef o ganfyddiadau sydd wedi dyddio, ac maen nhw'n aml yn cael eu hystyried yn llwybrau ail ddewis.

Mae'r cymwysterau hyn yn herio'r ffordd hon o feddwl drwy ddangos yr amrywiaeth o rolau, cyfrifoldebau, a llwybrau gyrfa sy'n bodoli i ddysgwyr, o feistroli logisteg ym maes adwerthu i ymgysylltu â'r gymuned ym maes gwasanaethau cyhoeddus neu gymhwyso sgiliau creadigol a thechnegol ym meysydd peirianneg ac arlwyo.

Mae'r gweledegdd hwn yn bwysig; mae'n helpu pobl ifanc i weld eu hunain yn rhan o'r diwydiannau hyn a chydnabod y pwrpas ehangach y tu ôl i'w hastudiaethau. Yn sylfaenol, mae'r cymwysterau hyn wedi'u llunio'n rhan o ecosystem addysgol gydlynol. Nid ydyn nhw'n gymwysterau ar wahân TGAU, ond yn hytrach yn eu hategu ac yn eu cyfoethogi.

Drwy gynnig darpariaeth ddwyieithog ar draws y Gymraeg a'r Saesneg, maen nhw'n cefnogi ein hymrwymiad cenedlaethol i gynhwysiant ieithyddol. Ac, yn hollbwysig, maen nhw wedi'u mapio'n uniongyrchol i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, gan sicrhau bod gan bob dysgwr y meddylfryd a'r gallu, yn ogystal â'r sgìl technegol, sydd eu hangen ar gyfer bywyd modern.

Mae uchelgais, creadigrwydd, dinasyddiaeth foesegol, a hyder personol wedi'u plethu yn nyluniad pob cymhwyster, gan baratoi dysgwyr i ffynnu ymhell ar ôl iddyn nhw adael addysg orfodol. Ac mae'r manteision yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

I ddysgwyr, mae'r cymwysterau hyn yn rhoi hyder, gallu ymarferol, ac ymdeimlad o gyfeiriad. I rieni ac athrawon, maen nhw'n cynnig sicrwydd bod y llwybr galwedigaethol yn drylwyr, yn gredadwy, ac yn uchel ei barch. I gyflogwyr, maen nhw'n cynrychioli cronfa o bobl ifanc sy'n barod ar gyfer y gweithle, sydd wedi'u seilio mewn profiad go iawn, ac sy'n cyfateb i anghenion diwydiant. Wrth i Gymru barhau i ail-lunio ei blaenoriaethau economaidd, gan gynnwys lletygarwch, twristiaeth, yr economi sylfaenol, arloesedd digidol, a thwf gwyrdd, bydd ein cymwysterau yn chwarae rhan allweddol wrth baratoi gweithlu'r dyfodol.

Cymwysterau ymatebol, perthnasol ac uchelgeisiol

Rydym yn cydnabod hefyd nad digwyddiad untro yw diwygio. Mae gwelliant parhaus wedi'i fewnblannu yn y broses o ddylunio a gweithredu'r cymwysterau hyn. Wrth eu cyflwyno, byddwn yn defnyddio prosesau adborth, gwerthuso, ac ymgysylltu parhaus â sectorau ac ymarferwyr i sicrhau bod y cymwysterau hyn yn aros yn ymatebol, yn berthnasol, ac yn uchelgeisiol.

O ran y dyfodol, rydym am i ddysgwyr gael eu grymuso gan ddewis, eu cefnogi gan gyfleoedd, a theimlo'n hyderus bod eu cymhwyster yn agor drysau iddyn nhw.

Ac rydym am i Gymru arwain, yn hytrach na dilyn, gan lunio addysg sy'n adlewyrchu realiti bywyd modern a'r gofynion sy'n datblygu yn y gweithle. Rydym am i gyflogwyr ledled Cymru gydnabod a gwerthfawrogi dysgwyr am eu gwydnwch, eu creadigrwydd a'u parodrwydd i gyfrannu.

Bydd y cymwysterau hyn yn fodd i lunio cenhedlaeth sy'n barod i ffynnu yng Nghymru a thu hwnt. Byddan nhw'n rhoi'r sgiliau, yr hyder, a'r mewnwelediad iddyn nhw i lwyddo ar eu telerau eu hunain.

I ddysgu mwy am ein cymwysterau Ton 3, ewch i

cbac.co.uk/Ton3

Dathlu Mathemategwyr ifanc Cymru:

derbynwyr Bwrsari 2025

Bellach yn ei bedwaredd blwyddyn, lansiwyd Bwrsari Gareth Pierce yn 2022 er cof am ein diweddar Brif Weithredwr, Gareth Pierce.

Bob blwyddyn, mae'r cynllun yn cefnogi myfyrwyr israddedig sy'n astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda phob derbynnydd yn derbyn bwrsari gwerth £3,000. Bwriad y fenter hon yw anrhydeddu'r angerdd tuag at fathemateg ac ystadegaeth oedd gan Gareth, yn ogystal â'i ymrwymiad i eirioli dros addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Bwrsari Gareth Pierce yn parhau i dyfu o ran ei boblogrwydd, ac rydym yn falch o gyhoeddi ein tri derbynnydd diweddaraf: Tarian Jones a Gruffudd Howell, y ddau yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a Bailey Powell-McCloy, myfyriwr israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Gobeithio y bydd y bwrsari hwn o gymorth pellach i'r derbynwyr ar eu taith ddysgu ac edrychwn ymlaen at weld ble y bydd yn mynd â nhw.

> "Dydy mam ddim yn siarad Cymraeg, ond roedd hi am i mi a fy mrawd fynd i ysgol cyfrwng Cymraeg i gael cyfleoedd newydd.
>
> Rwy'n falch fy mod i wedi gallu dal ati i ddefnyddio fy Nghymraeg yn y brifysgol drwy fy astudiaethau, ac yn gymdeithasol hefyd. Mae Cymraeg a Mathemateg yn agor cymaint o ddrysau, a bydd yr iaith yn bendant yn fantais pan fyddaf yn gwneud ceisiadau am swyddi yn y dyfodol."



Bailey Powell-McCloy
o Flaenafon, Torfaen



Mwy o wybodaeth yn:
cbac.co.uk/CynllunBwrsariGarethPierce

25 mlynedd yn tanio talent ifanc Cymru yn y **Gwobrau Arloesedd**

Mae'r Gwobrau Arloesedd wedi dathlu dyfeiswyr ifanc gorau Cymru ers 25 mlynedd. Yn y digwyddiad nodedig hwn rydym yn parhau â'n partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i ddarganfod, arddangos a meithrin y genhedlaeth nesaf o feddylwyr arloesol Cymru, gan anrhydeddu gwaddol cyfoethog dyfeiswyr Cymru ar yr un pryd.

Yn y 25ain seremoni flynyddol, a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2025 yn adeilad eiconig y Pierhead ym Mae Caerdydd, croesawyd dyfeiswyr ifanc dawnus o bob rhan o Gymru i arddangos eu dyluniadau sy'n torri tir newydd.

Carreg filltir i'w dathlu

Y Gwobrau Arloesedd yw un o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn ein calendr, ac mae wir yn anrhydedd arddangos y talent anhygoel sy'n dod o ysgolion ar draws Cymru.

Mae safon y creadigrwydd, sgiliau datrys problemau a thechnegol a welwyd eleni yn rhagorol.

Wrth i Gymru edrych i gryfhau ei safle mewn byd sy'n fwyfwy cystadleuol, bydd pwysigrwydd rôl dylunio a thechnoleg yn parhau i dyfu.

O weld y syniadau a gafwyd yn y gwobrau hyn, mae'r dyfodol wir yn mynd i fod yn ddisglair.



Ian Morgan
Prif Weithredwr

Enillwyr Gwobrau 2025

Safon Uwch
1af: Huw Davies,
Ysgol Uwchradd Aberteifi
2il: Dylan Draper,
Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr Yr Eglwys Yng Nghymru
3ydd: Madison Burgess,
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern

Safon UG
1af: Lewis Barnes,
Ysgol Gyfun Brynteg
2il: Gruffudd Thomas,
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern
3ydd: Lucy Moyes,
Ysgol Bro Pedr

TGAU
1af: Henry Farr,
Ysgol Uwchradd Y Trallwng
2il: Glesni Rees,
Ysgol Bro Pedr
3ydd: Matthew Evans,
Ysgol Bro Preseli


Gwobrau Arbennig
Gwobr Creadigrwydd: Mari Lois Williams,
Coleg Meirion-Dwyfor, Pwllheli
Gwobr Eiddo Deallusol: Tegid Harper,
Ysgol Gyfun Gymraeg, Bro Edern
Gwobr Gwyddoniaeth: Alfie Smith,
Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr Yr Eglwys Yng Nghymru

"Rydw i wedi gwneud traciwr cyflymiad i sbrintwyr. Mae'n defnyddio ril o gefn y blociau cychwyn a seinydd i gychwyn yr athletwyr ar eu ras, yna mae'n olrhain eu cyflymiad ar ap y gwnes i ei ddylunio ar gyfer ffôn yr hyfforddwr. Sbrintiwr ydw i fy hun, felly fy ysbrydoliaeth oedd y problemau roeddwn i'n eu cael wrth ymarfer bob dydd. Mae ennill y wobr hon yn hwb go iawn — bydd yn helpu wrth wneud cais i'r brifysgol ac yn gymhelliant i mi ar gyfer fy mhrojectau Safon Uwch.

Hoffwn ddiolch i'm hathro DaTh, Mr Harper, a'm rhieni. O'r fan honno y daeth yr holl syniadau a'r holl gymorth.

Lewis Barnes
Prif Enillydd, Ysgol Gyfun Brynteg

[Yn y llun ar y dde]



Buddsoddi yn ein pobl a'n harweinwyr

Yn CBAC, credwn fod ansawdd ein cymwysterau yn deillio'n ôl i ansawdd ein pobl. Y gred honno sydd wedi llywio ein dull gweithredu o ran datblygu pobl dros y blynyddoedd, ac mae'r canlyniadau'n dyst i

Buddsoddwyr mewn Pobl

Yn 2021, enillom ein hachrediad safonol Buddsoddwyr mewn Pobl, carreg filltir wnaeth osod sylfaen gref i ni a fframwaith clir i dyfu. Erbyn 2024, aethom ymlaen i ennill statws Arian, a hynny wedyn yn gosod CBAC ymhlith dim ond 22% o sefydliadau ar draws y byd sydd wedi ennill y safon honno.

Mae'r fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl yn drwyadl ac eang. Mae'n edrych ar ba mor dda mae sefydliad yn cefnogi twf ei bobl, p'un a yw unigolion yn teimlo eu bod wir yn cael eu gwerthfawrogi, a pha mor effeithiol yw'r arweinwyr yn creu'r amodau i bawb weithio orau y gallant.

Ystyr ennill statws Arian yw ein bod yn dilyn arferion cyson, mewnblanedig ar draws y meysydd hyn i gyd. Nid mater yw hyn o fwriadu gwneud pethau'n dda ond yn hytrach adlewyrchiad o sut mae'r sefydliad ei hun yn gweithredu o ddydd i ddydd.

Ym mis Tachwedd 2025, roeddem yn falch o gael ein henwebu'n Gyflogwr DU y Flwyddyn: Arian yn y Gwobrau Buddsoddwyr mewn Pobl. Cyrhaeddodd y gydnabyddiaeth hon ei 12fed blwyddyn erbyn hyn, ac mae'n dathlu sefydliadau sy'n ailddiffinio beth mae'n ei olygu i fod yn gyflogwr gwirioneddol wych.



Datblygu diwylliant cynhwysol

Ynghyd â'n taith Buddsoddwyr mewn Pobl, mae rhywbeth yr un mor bwysig yn cael ei ddatblygu yma: diwylliant lle mae tegwch a chynhwysiant wedi'i fewnblannu yn ein ffordd o weithio, yn hytrach na bod yn werthoedd rydyn ni'n sôn amdanyn nhw.

Eleni, cydnabuwyd yr ymrwymiad hwnnw'n allanol pan gyrhaeddodd CBAC y rownd derfynol yn y categori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Gwobrau AD yng Nghymru. Mae cael y gydnabyddiaeth hon yn adlewyrchu'r gwaith sy'n digwydd yma i wneud recriwtio yn decach, i leihau tuedd ddiarwybod a denu dewis ehangach o dalent.

Ers mis Medi, rydyn ni hefyd wedi bod yn rhan o fforwm amrywiaeth allanol, sy'n cynnig cyfle i barhau i rannu syniadau, dysgu gan bobl eraill a meddwl o'r newydd o ran ein dull gweithredu ein hunain. Sefydlwyd Grŵp Adnoddau Gweithwyr newydd gennym hefyd, sy'n rhoi lle penodol i gydweithwyr gysylltu, rhannu profiadau a helpu i lunio ein dull gweithredu mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant.

I unrhyw un sy'n ystyried dyfodol gyda CBAC, mae hyn yn golygu ymuno â sefydliad lle mae perthyn yn rhywbeth yr ydym yn ei annog yn weithredol ac yn tynnu sylw ato. Urddas a pharch — nid yw hyn yn agored i drafodaeth. Nid oes lle i fwlian, aflonyddu a gwahaniaethu yma o gwbl. Mae hygyrchedd yn cael ei ystyried yn rhan o sut rydyn ni'n gweithio, nid rhywbeth i feddwl amdano wedyn ydyw.

Ac mae ymrwymiad fel hyn i'n pobl yn rhywbeth sy'n cysylltu'n agos â'r gwaith a wnawn ar gyfer dysgwyr, ysgolion a cholegau. Pan fydd ein pobl yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi, eu gwerthfawrogi ac y gallent fod yn nhw eu hunain, mae'r diwylliant hwn yn estyn i bopeth a wnawn. Mae hyn yn amrywio o'r gofal sy'n sail i lunio cymwysterau, y ffordd mae ein timau cefnogi yn ymateb a'r perthnasoedd rydyn ni'n eu hadeiladu gyda'r gymuned addysg.

Dewch i wybod mwy amdanom ni
cbac.co.uk/AmdanomNi



> Mae'n wych cael cydnabyddiaeth o'r tu allan a bod yn rhan o sefydliad sydd wir am wneud newid cadarnhaol.



Elizabeth East
Uwch Bartner Busnes AD

Arweinwyr Cymwysterau y gellir Ymddiried ynddynt
Yr holl wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi: Tachwedd 2026

WJEC CBAC Ltd
245 Rhodfa'r Gorllewin,
Cardiff CF5 2YX

Ff: 029 2026 5000
E: gwybodaeth@cbac.co.uk
G: www.cbac.co.uk

Dilynwch ni ar y canlynol